

Cynnwys

- Tudalen 1:**
- Mae ffortiwn prif aderyn Gronant ar i fyny
- Tudalen 2:**
- Cwtiaid wedi eu modrwy yn dangos hoffter am draethau Conwy
 - Llai o'r Lleiaf!
- Tudalen 3:**
- Ail flwyddyn lwyddiannus ar y Ddyfrdwy
- Tudalen 4:**
- Yn chwilio am bennau coch.
- Tudalen 5:**
- OPAL yn dod i Gymru
 - Fforwm Coed Hynafol Cymru
- Tudalen 6:**
- Gwyllo bywyd gwyllt y gaeaf
 - Parhewch â'r Gwaith Cadwraeth

Mae ffortiwn prif aderyn Gronant ar i fyny

Mae nythfa'r fôr-wennol Fach yn Nhwyni Gronant wedi elwa o gynnydd mewn cefnogaeth gan wardeniaid gwirfoddol eleni, gan fagu o leiaf 77 o rai ifanc o 136 pâr yn llwyddiannus - y canlyniad gorau ers 2010. Mae'r adar wedi bod yn cael trafferth magu digon o gywion yn y blynyddoedd diwethaf, wrth geisio dod o hyd i safle nythu addas yn rhydd o aflonyddwch dynol, llanw uchel ac ysglyfaethwyr naturiol.

Mae llwyddiant a thwf y nythfa yn y gorffennol wedi golygu ei fod bellach yn atyniad cymhellol i lwynogod a chudyll coch; gallant bron sicrhau picnic ar y traeth yn yr haf. Bu'r wardeniaid gwirfoddol yn amhrisiadwy eleni i gyfyngu ar faint o gywion wnaeth y cudyll coch gymryd, gydag ond 23 o golledion - yr isaf mewn 4 blynedd!

Gwirfoddolwyr a wardeiniaid haf yn gwneud gwaith hanfodol



100 mlynedd yn ôl adroddwyd bod môr-wenoliaid bach yn "gyffredin ar yr arfordir; llawer o nythfeydd bridio ar draethau gwastrad ym mhob gwladwriaeth arfordor", ond erbyn hyn Gronant yw'r unig le yng Nghymru lle mae môr-wenoliaid bach yn nythu. Fodd bynnag, mae hefyd y nythfa fwyaf cynhyrchiol yn y DU, yn tyfu blwyddyn ar ôl blwyddyn. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn gobeithio denu môr-wenoliaid bach yn ôl i safleoedd eraill yng ngogledd ddwyrain Cymru yn y blynyddoedd i ddod a rhoi llefydd gwahanol i nythu, gan leihau'r pwysau yng Ngronant.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn gofyn i bobl leol roi rhywfaint o le i fywyd gwyllt ar ein traethau. Drwy barchu unrhyw arwyddion a ffensys yn ystod misoedd yr haf, bydd adar y glannau sy'n nythu fel y Môr-wennol Fach, Pioden y Môr a'r

cwtiaid torchog yn nodwedd barhaol a gwerthfawr ar ein harfordir.

Hefyd eleni, mae ymgais o'r newydd i liw-fodrwy môr-wenoliaid bach yn y DU ac lwerddon eisoes wedi dwyn ffrwyth pan gafodd un ifanc '2014' ei ddarganfod yn Arsyllfa Adar Ynys Hilbre yn Aber Afon Dyfrdwy. Roedd yna aderyn yn gwisgo modrwy werdd ar ei goes dde, sy'n dangos iddo gael ei fodrwy yn Kilcoole, Co Wicklow - sef 190 cilomedr i ffwrdd! Mae hyn yn cymhlethu'r stori ymhellach o sut roedd y Môr-wenoliaid Bach yn gwasgaru o amgylch Môr lwerddon, ac mae hefyd yn cefnogi'r awgrym bod Aber Afon Dyfrdwy yn llwybr mudo pwysig ar gyfer y rhywogaeth.

Yn y DU, mae'r Prosiect Adfer môr-wenoliaid Bach LIFE+ - partneriaeth genedlaethol a ariannwyd gan yr UE rhwng Cyngor Sir Ddinbych, yr RSPB a 9 o bartneriaid eraill - wedi treialu rhaglen liw-fodrwy yn ne-ddwyrain Lloegr ac Ynys Manaw eleni, gan ddefnyddio modrwyau melyn gyda marciau du. Nawr ein bod yn gwybod ei bod yn bosibl ailweld môr-wenoliaid bach modrwy lliw, gall y prosiect gael ei gyflwyno ar draws y DU y flwyddyn nesaf, gan gynnwys Gronant. O hyn, rydym yn gobeithio dysgu llawer mwy am y rhywogaeth yn ystod 4 blynedd nesaf y prosiect LIFE+, a thu hwnt.

Dyma sut gallwch chi helpu: rydym yn gofyn i chi roi gwybod am fôr-wenoliaid Bach o gwmpas Aber Afon Dyfrdwy, yn enwedig y rhai sydd â modrwyau lliw. Anfonwch e-bost at littleterns@denbighshire.gov.uk os byddwch yn gweld un, neu i ymwneud â'r prosiect.



Morwennol Fechan

Dywedwch eich barn wrthym!

Hoffem glywed eich meddyliau am eich newyddlenni. Gallwch roi adborth drwy'r arolwg byr hwn ar

www.surveymonkey.com/s/Q99NJFL

Cwtiaid wedi eu modrwygo yn dangos hoffter am draethau Conwy

Roedd cwtiad torchog wedi magu teulu o gywion ar un o'r traethau mwyaf prysur yng Nghonwy eto eleni. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ffensio ardal brysur iawn o'r graean ar draeth Pensarn, ger Abergele, gan ganiatáu i gwtiaid nythu gydag ychydig mwy o heddwch a thawelwch. Er gwaethaf caffis a difyrion swnllyd o fewn clyw a gwylanod llwglyd yn patrolio'n rheolaidd am sgldion wedi eu dwyn neu wyau cwtiaid, roedd pâr o gwtiaid torchog wedi llwyddo i fagu 4 o gywion i'r cam magu plu.

Mae'r prosiect yn derbyn llawer o gefnogaeth leol gydag adroddiadau rheolaidd yn dod i mewn gan aelodau o'r cyhoedd ar sut mae'r cwtiaid yn dod ymlaen, er bod y cwtiaid wedi cuddliwio'n hynod o dda, fel y gwelwch o'r llun isod! Wrth i aelodau o'r cyhoedd ddod yn ymwybodol o'r prosiect ar Draeth Pensarn, maent yn gynyddol anfon adroddiadau am gwtiaid sy'n nythu ar draethau prysur eraill. Eleni, derbyniodd y Cyngor adroddiadau o barau ny-

thu ar draeth Penmorfa yn Llandudno a Morfa Conwy. Mewn ymateb i'r adroddiadau hyn roedd y Cyngor wedi gosod arwyddion dros dro yn hysbysu defnyddwyr y traeth am y nythod. Mae cwtiad torchog yn un o'r nifer o rywogaethau o'r pwys mwyaf i gadwraeth yng Nghymru sy'n gosod dyletswydd arbennig ar Gynghorau i roi sylw i'r rhywogaeth hon yn eu gweithgareddau o dan Ddeddf y Cymunedau Gwledig a'r Amgylchedd Naturiol.



Cyw Cwtiad Torchog

Llai o'r Lleiaf!

Ymddengys bod niferoedd yr ystlum pedol lleiaf ar i fyny. Yn ôl y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), mae'r data tymor hir ar gyfer ystlumod pedol lleiaf yn dangos cynnydd cyffredinol, bychan, ond arwyddocaol mewn niferoedd. Ar ôl cymaint o golledion sylweddol ac eang ar draws Ewrop ond ychydig ddegawdau yn ôl, mae hyn yn wych, ond yn newyddion ansicr. Mewn gwirionedd, mae tueddiadau cyffredinol yn ystod y cyfnod o 1997 - 2013 ar gyfer 11 o'r 17 o ystlumod sy'n magu yn y DU naill ai'n dangos dim newid neu gynnydd bach. Mae'r YCY yn awgrymu y byddai cynnydd mwy cyson dros gyfnod estynedig o amser yn awgrymu bod ystlumod yn gwneud adferiad, ar ôl dirywiad mor ddinistriol yn ddiweddar.

Cymru yw cadarnle Gogledd Ewrop ar gyfer yr anifeiliaid gwirioneddol hynod hyn. Mae ystlumod pedol lleiaf (YPLI) wedi cael eu henw gan y ddeilen trwyn ar ffurf pedol, sy'n amgylchynu'r ffroenau, gan eu helpu i allyrru eu galwadau ecoleoli, maent yn eu defnyddio i lywio a dod o hyd i ysglyfaeth. O fewn manau clwydo, mae'n well gan YPLI hongian yn rhydd, wedi'u lapio o fewn eu hadenydd yn hytrach na chlwydo mewn manau cyfyng. Maent yn hoffi chwilota am eu gwybedyn, pryf teiliwr, ac ysglyfaeth mosgito mewn manau tywyll, coediog, gan deithio 2-3 cilomedr yn rheolaidd o'u safle clwydo i fwydo. Fel pob ystlum arall yn y DU, byddant yn defnyddio amrywiaeth o glwydi trwy gydol y flwyddyn. Mae mamau yn ffurfio clwydi mamolaeth yr haf i ddatblygu'r ffetws a rhoi genedigaeth i'w hystlum ifanc sengl rhwng canol Mehefin a chanol Gorffennaf. Ar ôl defnyddio clwydydd bridio yn yr Hydref, maent yn defnyddio clwydi gaeafgysgu oer llaith i oroesi diffyg ysglyfaeth pryfed dros y gaeaf.

Ers 1997 mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (YCY), elusen sy'n anelu i fonitro a gwarchod poblogaethau ystlumod yn y DU, wedi cydlynu rhwydwaith o syrfewyr gwirfoddol i gyfrif poblogaethau ystlumod yn y DU, gan gynnwys clwydi mamolaeth a gaeafgysgu YPLI. Gyda'i gi-

lydd, mae'r arolygon amrywiol yn llunio Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod (NBMP). Mae'r data, a gasglwyd bob blwyddyn, yn darparu'r wybodaeth am dueddiadau poblogaeth swyddogol a gynhyrchwyd gan y JNCC, sy'n cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau polisi a chadwraeth.



Mamau Pedol Lleiaf gyda, ynghlwm, babanod mewn clwydi mamolaeth

Nid yw'n hysbys pa un a yw cynnydd yn niferoedd yr ystlumod o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, deddfwriaeth Ewropeaidd a'r DU neu ymdrechion cadwraeth ar y dddear. Fodd bynnag, gall monitro parhaus, gwelliannau i gynefinoedd a chryfhau deddfwriaeth ond gwella'r niferoedd, felly beth am helpu? Mae ystlumod yn Ewrop yn dal i ddioddef delwedd wael, yn wahanol i'r rhai yn y Caribî neu'r Dwyrain Pell, lle mae ystlumod yn cael eu hystyried yn lwcus. Po fwyaf o bobl sy'n siarad am ystlumod, y gorau. Lledaenwch y gair i fod yn ymwybodol o ystlumod wrth wneud gwaith ar eich tŷ, coed ac ati; gofynnwch am gyngor os ydych yn ansicr. Os oes gennych glwyd neu'n gwybod am un yn lleol, gallwch ymuno yn y cyfrif NBMP neu gallwch ymuno â'ch grŵp ystlumod lleol a mynd allan yn yr haf neu'r gaeaf i ddysgu mwy a'u helpu i gyflawni mathau eraill o arolygon yn lleol. Peidiwch ag anghofio cadw llygad am deithiau cerdded ystlumod yn rhaglenni digwyddiadau'r flwyddyn nesaf ac os ydych eisoes yn hen law, efallai y gallwch helpu, neu hyd yn oed arwain un.

Ail flwyddyn lwyddiannus ar y Ddyfrdwy

Daeth Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy – y Goresgyniad (BDDTI) i fodolaeth fel chwaer ddigwyddiad i Ddiwrnod Mawr y Dyfrdwy – glanhau'r afon. Yn lle casglu ysbwriel ar lan yr afon, mae'r digwyddiad yma'n canolbwyntio ar glirio rhywogaethau ymledol anffodrol. Mae materion sy'n ymwneud â rhywogaethau anffodrol ymledol yn amlwg mewn sawl rhan o ddalgylch y Ddyfrdwy gyda rhywogaethau fel ffromlys chwarennog, llysiau'r dial a'r efwr enfawr yn difrodi bioamrywiaeth, sefydlogrwydd glannau ac yn effeithio ar weithgareddau hamdden. Mae datblygu tasglu ar wahân sy'n ymwneud â nifer fawr o wirfoddolwyr sy'n gweithredu dros un achos yn allweddol i'w dileu'n llwyddiannus.



Keep Wales Tidy volunteers tackling Balsam at Swinchiard Brook in Flint



Gwirfoddolwyr yn rhoi cynnig ar dynnu â llaw a phladuro ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr

Mae digwyddiad pwrpasol megis Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy – y Goresgyniad felly, yn hanfodol i ddalgylch yr Afon Ddyfrdwy.

Bellach yn ei ail flwyddyn, mae'r BDDTI yn ymwneud â gweithgareddau drwy gydol mis Gorffennaf ar draws dalgylch yr Afon Ddyfrdwy o Barc Cenedlaethol Eryri, drwy Ogledd Cymru a Swydd Gaer, at aber yr Afon Ddyfrdwy. Oherwydd dalgylch mawr bu awdurdodau lleol, asiantaethau statudol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Glannau Dyfrdwy, sefydliadau cadwraeth, grwpiau cymunedol, clybiau pysgota ac eraill yn gweithio mewn partneriaeth ac ar draws ffiniau i sicrhau bod y digwyddiad yn llwyddiannus. Mae'r BDDTI yn codi ymwybyddiaeth am INNS, y problemau maent yn ei achosi a sut y gall pobl gymryd rhan i'w rheoli yn nalgylch Dyfrdwy.

Diolch i arian a sicrhawyd trwy Brosiect Rhywogaethau Anffodrol Ymledol y Ddyfrdwy cafodd lansiad swyddogol ei gynnal ar 27 Mehefin ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr ger Wrecsam. Daeth llawer o gynghorwyr lleol, cadeirydd Cyngor Sir y Fflint, cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau gwasanaethau, clybiau pysgota a chyrff cadwraeth i'r lansiad. Roedd y lansiad yn cynnwys cyflwyniad ar y materion INNS sy'n effeithio ar ddalgylch yr Afon Ddyfrdwy, ynghyd â mewnbwn gan gynghorwyr lleol ar lwyddiant cyfranogiad eu siroedd yn 2013. Yna aeth y mynychwyr at lan yr afon i wyllo arddangosiadau o reoli llysiau'r dial a rhoi cynnig ar dynnu'r ffromlys chwarennog â llaw. Cafodd mis o weithgareddau ffustio'r ffromlys ei lansio ddydd Sadwrn 28ain, gyda chyfres o arddangosiadau, unwaith eto yn Nhŷ Mawr. Cafodd y cyhoedd gyfle i weld gweithgareddau tynnu â llaw, pladuro, torri â brws a pheiriant ffustio ar waith, i fynd i'r afael â ffromlys chwarennog, yn ogystal ag arddangosiadau chwistrellu coesyn, i fynd i'r afael â llysiau'r dial.



Balsam bashing at Bala with Snowdonia National Park Authority and Snowdonia Society

Prif ffocws Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy – yr Ymosodiad oedd cyfres o ddigwyddiadau i reoli'r ffromlys chwarennog, un o'r planhigion sy'n achosi'r broblem fwyaf ar hyd glannau'r afon. Mae'n hawdd iawn i wirfoddolwyr reoli'r planhigyn hwn gan fod ei wreiddiau'n fyr ac felly'n hawdd i'w dynnu â llaw. Mynychodd Gwirfoddolwyr (aelodau o'r cyhoedd, gwirfoddolwyr corfforaethol, clybiau pysgota a grwpiau cymunedol) 40 o ddigwyddiadau o Barc Cenedlaethol Eryri i lawr i Farndon yn Swydd Gaer, yn ogystal â mynd i'r afael â'r llednentydd ac afonydd arfordirol aber yr afon Ddyfrdwy. Roedd y digwyddiadau dan sylw yn cynnwys hyd at 400 o wirfoddolwyr, gan roi hyd at 1,680 o oriau gwirfoddolwyr. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y gwaith partneriaeth llwyddiannus rhwng y nifer o wahanol sefydliadau yng Ngogledd Cymru a Swydd Gaer sydd wedi bod yn ymwneud â'r BDDTI ers 2013. Cewch wybod am Ddiwrnod Mawr y Ddyfrdwy – Y Goresgyniad 2015 sy'n cael ei lansio ddydd Gwener 26 Mehefin 2015 drwy fynd i www.dinns.org.uk neu ein dilyn ni ar Facebook neu Twitter!



[facebook.com/BigDeeDayTheInvasion](https://www.facebook.com/BigDeeDayTheInvasion)



twitter.com/DINNSProject#BDDTI

Yn chwilio am bennau coch.

Mae'r prosiect Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy (MISE) wedi ysgrifennu erthyglau ar gyfer BIONET o'r blaen, er enghraifft, ein gwaith ar arolygu llygod cynhaeaf, fodd bynnag, nid ydym wedi tynnu sylw at y gwaith rydym wedi bod yn ei wneud ar edrych am a gwarchod gwiwerod coch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru eto.


Diolch i estyniad o 6 mis ar gyfer y prosiect, rydym wedi gallu cynnwys ychydig mwy o waith ar y rhywogaeth hon yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, lle mae poblogaeth fechan yn parhau i fod yn yr ardal ac o amgylch coedwig Clocaenog. Mae rhai trapiau tiwb blew gafodd eu gosod ger Llyn Brenig gan Dŵr Cymru, wedi profi presenoldeb parhaus y rhywogaeth 'pan gafodd blew a ddaliwyd yn y trap ei ddadansoddi gan staff MISE yn Sefydliad Technoleg Waterford yn Iwerddon, a oedd yn profi ei DNA. Er llawenydd, profodd yn gadarnhaol ar gyfer y wiwer goch. Mae gweld nifer o rai byw yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn anffodus rhai wedi eu lladd ar ymyl y ffordd i'r gogledd o Lyn Brenig yn ddiweddar, yn ychwanegu ymhellach at y dystiolaeth o'u presenoldeb.

arnynt. Trwy osod llawer mwy o'r blychau bwydo hyn, byddem yn gobeithio cael mwy o dystiolaeth ac efallai cael gwell syniad o rifau. Bydd y blychau, ag abwyd cnau cyll cyfan, hefyd yn cynnwys tâp ynghlwm wrth flew trap, a fydd yn cael eu hanfon ar gyfer dadansoddiad DNA a bydd y lluniau camera yn ychwanegu ymhellach at gasglu dystiolaeth.

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu gyda'r cynllun hwn. Bydd swyddogaethau'n cynnwys monitro'r blychau bwydo'n rheolaidd a fydd yn cynnwys ail-abwydo, gwirio am flew a gwirio'r lluniau camera.

Bydd gweithgarwch arall yn golygu rheoli'r boblogaeth wiwer lwyd yn y coetiroedd cyfagos. Mae hyn yn hanfodol i oroesiad ein gwiwer goch frodorol ac mae wedi bod yn llwyddiannus yng Ngogledd Orllewin Lloegr a chwaer-brosiect yng nghanolbarth Cymru. Eto, bydd hyfforddiant llawn yn cael ei ddarparu.

Ar nodyn terfynol, bydd y prosiect MISE yn dod i ben ym Mehefin 2015 ac rydym yn edrych ar y syniad o helpu pobl i ffurfio grŵp mamaliaid lleol yng ngogledd-ddwyrain Cym-



Mae poblogaeth y wiwer goch frodorol wedi cael ei dinistrio yng Nghymru gan y wiwer lwyd, sy'n cystadlu â'r gwiwerod coch am fwyd. Mae hyn yn arwain at lai o lwyddiant magu yn y boblogaeth goch a'r gwiwerod llwyd yn disodli'r gwiwerod coch yn raddol. Mae'r wiwer lwyd yn cario firws brech y wiwer, nid oes gan y wiwer goch unrhyw imiwnedd iddo. Mae'r firws yn achosi briwiau, yn debyg i'r rhai ar gwingod gyda myxomatosis ac mae bron bob amser yn angheuol i wiwerod coch, gan ddinistrio poblogaethau.

Mae partneriaid BASC (Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain) yn gweithio gyda MISE i helpu i warchod y gwiwerod coch a chynyddu'r boblogaeth yn yr ardal hon. Mae ein camau gweithredu'n cynnwys ychwanegu at naw blwch bwydo'r wiwer goch sydd eisoes yn cael eu defnyddio yn y goedwig gyda chamerau llwybr hyfforddiant

ru gyda'r bwriad y bydd y grŵp yn parhau i arolygu mamaliaid ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Gallwn gynnig hyfforddiant, cyngor ac adnoddau. Rwy'n awyddus i glywed gan unrhyw un a allai fod â diddordeb mewn trafod hyn neu sydd â mwy o syniadau.

Felly, cysylltwch â ni os hoffech fod yn rhan o'r prosiect gwiwerod coch neu ffurfio grŵp mamaliaid lleol.

Rebecca.Clews-Roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

07881850735

Mae'r prosiect MISE yn brosiect partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Cymru), a Sefydliad Technoleg Waterford, Cyngor Sir Waterford a'r Ganolfan Ddata Bioamrywiaeth Genedlaethol (Iwerddon). Ariennir y prosiect yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy'r Rhaglen Cymru ac Iwerddon (INTERREG A4) ac mae'n gweithio gyda gwirfoddolwyr i archwilio nifer o rywogaethau mamaliaid allweddol ar draws Cymru ac Iwerddon.

OPAL yn dod i Gymru

Eisiau dysgu ychydig mwy am eich amgylchedd lleol, cael hwyl a chymryd rhan mewn arolwg gwyddonol cenedlaethol pwysig?

Mae'r Labordai Awyr Agored, (OPAL), yn fenter gwyddoniaeth dinesydd ar draws y DU a ariennir gan y Loteri Genedlaethol sy'n eich galluogi i gael profiad ymarferol gyda natur; beth bynnag eich oed, cefndir neu lefel o allu.

Syrfewyr ifanc yn archwilio eu casgliad bygiau



Mae OPAL yn cynnig adnoddau y gellir eu hailddefnyddio o ansawdd uchel, hyfforddiant, a chymorth arall i alluogi grwpiau cymunedol, ysgolion ac unigolion i gyflawni hyd at 6 arolwg gwahanol gan ddefnyddio rhywogaethau sydd yn hawdd i'w adnabod fel dangosyddion.

Datblywyg yr arolygon hyn gan nifer o sefydliadau a phrifysgolion, i alluogi'r cyhoedd casglu data bydd yn helpu i greu cipolwg ar gyflwr yr amgylchedd yn y DU, a gallai hefyd helpu i ddangos newidiadau amgylcheddol ehangach, megis y newid yn yr hinsawdd neu bod rhai rhywogaethau yn addasu ac ymestyn eu tiriogaeth: Y chwe arolygon presennol yw: -

- Chwilio Chwilod (darganfod a chofnodi infertebratau bychain)
- Ansawdd dŵr (gan edrych ar creaduriaid sy'n byw mewn pyllau a llynnoedd)
- Ansawdd Aer (gan ddefnyddio cennau ar goed fel dangosyddion o lygredd Nitrogen).
- Bioamrywiaeth (edrych ar fywyd mewn gwrychoedd)
- Ansawdd Pridd (gan ddefnyddio rhywogaethau prifed genwair fel dangosyddion)

- Iechyd Coed (yr arolwg diweddaraf i gael ei ddatblygu, mewn ymateb i'r bygythiad diweddaraf o glefyd mewn coed Derw ac Onnen)

Mae'r arolygon hyn yn addas ar gyfer pob oed a gallu, ac yn cael eu cynllunio i fod yn hawdd i'w ail wneud, gan alluogi grwpiau i fonitro'r bywyd gwyllt yn eu hardal leol dros gyfnod hir, neu cymharu nifer o safleoedd o fewn eu hardal leol.



Gwirfoddolwyr yn cymryd rhan yn yr arolwg iechyd coed

Mae OPAL yng Nghymru yn cael ei redeg gan bartneriaeth rhwng Cofnod (Y Ganolfan Cofnodion Biolegol Lleol Gogledd Cymru), Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru; sy'n cyflogi rhwydwaith o Wyddonwyr Cymunedol i weithio i gefnogi grwpiau cymunedol lleol.

Mae Iwan Edwards yn gweithio o swyddfa Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn y Wyddgrug a mi fydd yn hapus i ymweld â'ch grŵp, i gynorthwyo gyda OPAL yn eich ardal leol, ac yn hapus i weithio naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg; mae adnoddau OPAL ar gael yn y naill iaith.

Gellir cysylltu â Iwan ar 07584 311 583 neu iwanedwards@wildlifetrustswales.org

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan www.opalexplornature.org

Fforwm Coed Hynafol Cymru

I bawb sydd â diddordeb mewn coed hynafol neu hen goed yng Nghymru, dyma wahoddiad i chi ymuno â phobl o'r un anian â chi i ffurfio Fforwm Coed Hynafol Cymru. P'un a'i oes gennych chi ddiddordeb arbennig neu gyffredinol, yn hoffi edmygu a thynnu lluniau o goed, neu'n tirlfesur ac yn cofnodi rhywogaeth a nodweddion, mae croeso i chi fynychu! Gallwn wneud y grŵp mor anffurfiol ag y dymunwch, a threfnu ystod o weithgareddau neu fynd i chwilio am goed hardd. Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â: Tracey Lovering

t.lovering@btinternet.com.



Coeden Aethnen Ddu

Gwyllo bywyd gwyllt y gaeaf

Os ydych yn teimlo eich bod angen rhywbeth i'ch tynnu chi allan ar y diwrnodau gaeafol oer, yn ogystal â'r arolygon OPAL gwych llawn adnoddau a chefnogaeth, a grybwyllwyd uchod, rydym wedi dewis ychydig o weithgareddau eraill a allai hefyd fynd â'ch bryd.

*Mae Coed Cadw yn wych ar gyfer gweithgareddau i'r teulu drwy gydol y flwyddyn, edrychwch ar y canlynol ar gyfer eu hawgrymiadau ar gyfer yr hydref a'r gaeaf -

www.naturedetectives.org.uk/autumn +
www.naturedetectives.org.uk/winter

*Gwyllo Adar yr Ardd RSPB - fel arfer y penwythnos olaf ym mis Ionawr edrychwch allan am wybodaeth yn -
www.rspb.org.uk

* Er mwyn helpu i frwydro yn erbyn yr onnen rhag gwywo, gallwch ymuno yn yr arolwg o goed onnen â chlefyd a rhai iach drwy eu tagio ac anfon lluniau o'ch coeden i arbenigwyr eu holrhain a'u hasesu - www.ashtag.org <<http://www.ashtag.org>> Gallwch lawr lwytho App i roi gwybod am goed gyda chlefyd - <http://www.forestry.gov.uk/treelalert>
www.forestry.gov.uk/treelalert_01

* Ar gyfer unrhyw anifeiliaid marw ar y ffyrdd dewch o hyd i gymaint o wybodaeth am beth a lle ac anfonwch eich gwybodaeth at brosiect ym Mhrifysgol Caerdydd -
www.projectsplatter.co.uk

* Mynd am dro ar hyd yr arfordir? Beth am gasglu, adnabod ac anfon canlyniadau gorchudd wy siarc/pwrs y fôr -forwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn i Helfa Gorchudd Wy Fwyaf yr Ymddiriedolaeth Siarcod - yn www.sharktrust.org/

[en/GEH the project](http://en/GEH_the_project) <[http://www.sharktrust.org/en/GEH the project](http://www.sharktrust.org/en/GEH_the_project)>

* Gallwch gael gafael ar sgwâr arolwg (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror) i ddod o hyd i ymlusgiaid ac amffibiaid ar gyfer Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid -
www.narrs.org.uk/index.php

* Wedi sefyll mewn baw? Os yw'n faw mamaliaid gwyllt, yna byddai'r Gymdeithas Mamaliaid yn hoffi cael gwybod, yn ogystal ag unrhyw olygfeydd byw ar gyfer eu Hatlas Cenedlaethol - www.mammal.org.uk/nmap

* Efallai y byddwch am roi gwybod am aderyn rydych wedi'i weld a gallwch wneud hyn drwy fynd i wefan dilyn adar Ymddiriedolaeth Brydeinig Adareg - www.bto.org/birdtrack os ydych am fynd ymhellach ac archwilio ardal arbennig ar gyfer adar, gan gynnwys eich gardd eich hun, mae gan y BTO ddigon o arolygon eraill i gymryd rhan ynddynt. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cofrestru a dechrau adnabod adar.

* Efallai y bydd 650 o rywogaethau o wymon ar hyd ein harfordiroedd yn y DU, ond dim ond dod o hyd i 12 sydd angen i gymryd rhan yn chwilio Gwymon Amgueddfa Hanes Naturiol - www.nhm.ac.uk/nature-online/british-natural-history/seaweeds-survey

* Wedi gweld pelen tylluan? Mae'r Gymdeithas Mamaliaid eisiau eich ailchwydiadau - www.mammal.org.uk/owl_pellet_survey

Parhewch â'r Gwaith Cadwraeth

Cysylltwch â ni

Wrecsam: emma.broad@wrexham.gov.uk
Ffon: 01978 298762

Sir y fflint: sarah.slater@flintshire.gov.uk
Ffon: 01352 703263

Sir Ddynbych:
elizabeth.webster@denbighshire.gov.uk
Ffon: 01824 708263

Conwy: anne.butler@conwy.gov.uk
Ffon: 01492 575123

www.bionetwales.co.uk



Dilynwch Ni!

Os ydych yn hoffi ein tudalen ar Facebook, sef Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru, byddwch yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am broiectau bioamrywiaeth yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Rydym yn llwytho newyddion i'r safle yn eich hysbysu o newyddion cyffrous, digwyddiadau, ffotograffau a phroiectau yn yr ardal. Dyma ffordd syml a chyflym, ffordd sy'n rhad am ddim hefyd, o ddod i wybod pa weithgareddau bioamrywiaeth sy'n digwydd a sut allwch chi gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn o fewn eich sir.

Ymhellach, mae gennym gyfrif ar Twitter sy'n debyg i Facebook – gallwch dderbyn newyddion rheolaidd, a gwybodaeth am lwyddiannau a digwyddiadau. Felly, dilynwch ni ar Facebook: www.facebook.com/NEWBionet Twitter: @newbionet